COVID-19 Update: 18th May

In the latest COVID-19 update from Cardiff Council: weekly kerbside collections for recyclables and food waste will return to normal service from 1st June; staying on the topic of collections, a reminder of the areas having a garden waste collection this Saturday; and working with over 130 parents of young children to support family relationships, child behaviour and child development.

Kerbside waste collection changes from June 1st

Weekly kerbside collections for recyclables and food waste will return to normal service from June 1.

Residents are being asked to begin using their brown kerbside food caddies again from this date, and to make sure all their recyclables go into their green bags for collection. Waste collected in the black bin or red striped bags will now go back to being collected once every fortnight and residents are reminded that any side waste will not be collected.

Green garden waste, bulky collections and the glass bottle and jar trial, however, all remain suspended until further notice.

Cllr Michael Michael, Cabinet Member for Clean Streets, Environment and Recycling, said: “Firstly I would like to thank our residents for working with us since lockdown began. They’ve been fantastic and adapted to the new collection regime, spreading the news in their communities about the changes.

“We have always said that we would seek to return to normal service arrangements as soon as we could, and we are now ready to begin doing that.

“I understand that there may be some concern that the complete service we offered before the outbreak isn’t quite ready to return yet, but I ask everyone to bear with us. We are working on plans to restore all our services as soon as we can including our Household Waste Recycling Centres, green garden kerbside collections and bulky waste collections.

“I am delighted though, that we can begin recycling again. I know it has concerned many residents and I want to thank them all for their patience.”

Residents living in the 14,000 homes that are part of the glass bottle and jar pilot scheme are asked to continue to put their bottles and jars in their green bags, rather than their blue caddy until further notice.

All recyclables collected in the green bags will now be recycled. All food waste, which must now be presented for collection in the brown food caddies, will be processed at an Anaerobic Digestion Plant to make green electricity and compost.

“We realise that residents will be disappointed that we cannot provide a kerbside green garden waste collection at the moment, but this is why we provided the one-off green garden waste collections during weekends in May. We are working on a

booking system which will allow us to open our HWRCs as soon as it is safe to do so. Residents will have the option of taking garden waste to the HWRCs once we have this up and running."

One-off Saturday Garden Waste Collections Continue

A reminder that one-off Saturday garden waste collections are taking place this month.

The areas of Cardiff that have their waste collected on a **Thursday** will have a garden waste collection this coming **Saturday, 23rd May**.

Residents are reminded that they must only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

For questions and answers on the one-off garden waste collections during May, go to:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Parents Plus run remote parenting service during lock down

Parents Plus is a psychology-led parenting service for children under 4 years of age and their families in Flying Start Areas. Since the Covid-19 lock down came into force, the service have quickly adapted their home visiting parenting service to instead offer bespoke 1:1 parenting interventions via telephone or video calls.

The team are currently working with over 130 parents of young children to support family relationships, child behaviour and child development. In addition to this, the team are also providing weekly 'wellbeing calls' to families who require them.

The team's manager, Dr Nicola Canale says her team are truly committed to supporting parents and their young children during this time, "All team members have been positive and professional in adapting quickly to the changes that have needed to take place to continue supporting parents, whilst at the same time managing significant changes to their own home lives. I have seen our core value, of being a strength based team, play out more than ever over the past few weeks and feel very proud of the whole team".

A parent recently contacted the team about one of the Parents Plus Practitioners saying, "She has helped me in ways I couldn't imagine, been thorough, consistent and just a genuine pleasure to work with. She really understands what I am going through and has supported me so much, and continues to do so on the phone during lockdown. She introduced me to CBT techniques that helped me challenge those (negative) thoughts. I am so glad I accessed your services and met her. She is brilliant and I can't thank her enough".

For more about Parents Plus visit the Flying Start website:
https://www.flyingstartcardiff.co.uk/what-we-do/parents-plus-service/

Diweddariad COVID-19: 18 Mai

Yn y diweddariad COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd: bydd y casgliadau wythnosol o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a gwastraff bwyd oddi ar ymyl y ffordd yn dychwelyd i'r gwasanaeth arferol o 1 Mehefin; yr ardaloedd sy'n cael casgliadau gwastraff gardd dydd Sadwrn yma; a gweithio gyda dros 130 o rieni plant ifanc i gefnogi perthnasoedd teuluol, ymddygiad plant a datblygu plant.

Newidiadau i gasgliadau gwastraff oddi ar ymyl y ffordd o 1 Mehefin

Bydd y casgliadau wythnosol o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a gwastraff bwyd oddi ar ymyl y ffordd yn dychwelyd i'r gwasanaeth arferol o 1 Mehefin.

Gofynnir i breswylwyr ddechrau defnyddio eu cadis bwyd brown ar ymyl y ffordd unwaith eto o'r dyddiad hwn, a gwneud yn siŵr bod eu holl ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn mynd i mewn i'w bagiau gwyrdd i'w casglu. Bydd gwastraff a gesglir yn y bin du neu fagiau streipiau coch yn cael ei gasglu bob pythefnos.
Ond mae'r casgliadau o wastraff gardd gwyrdd, casgliadau swmpus a'r arbrawf gyda photeli a jariau gwydr yn dal wedi'u gohirio nes y nodir yn wahanol.

Dywedodd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, yr Amgylchedd ac Ailgylchu: "Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'n trigolion am weithio gyda ni ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau. Maen nhw wedi bod yn wych ac wedi addasu i'r drefn newydd o gasglu, gan ledaenu'r newyddion yn eu cymunedau am y newidiadau.

"Rydym bob amser wedi dweud y byddem yn ceisio dychwelyd at y trefniadau gwasanaeth arferol cyn gynted ag y gallem, ac rydym nawr yn barod i ddechrau gwneud hynny.

"Rwy'n deall y gall fod rhywfaint o bryder nad yw'r gwasanaeth cyflawn a gynigiwyd gennym cyn y cyfnod cloi yn ddigon parod i ddychwelyd eto, ond gofynnaf i bawb fod yn amyneddgar â ni. Rydym yn gweithio ar gynlluniau i adfer ein holl wasanaethau cyn gynted ag y gallwn gan gynnwys ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, casgliadau gardd gwyrdd min ffordd a chasgliadau gwastraff swmpus.

"Er hynny, rwy'n falch iawn ein bod yn gallu dechrau ailgylchu eto. Rwy'n gwybod ei fod wedi poeni llawer o drigolion ac rwyf am ddiolch iddynt i gyd am eu hamynedd."

Gofynnir i drigolion sy'n byw yn y 14,000 o gartrefi sy'n rhan o'r cynllun peilot 'poteli a jariau gwydr' barhau i roi eu poteli a'u jariau yn eu bagiau gwyrdd, yn hytrach na'u cadi glas nes y ceir rhybudd pellach.

Bydd yr holl ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a gesglir yn y bagiau gwyrdd nawr yn cael eu hailgylchu. Bydd yr holl wastraff bwyd, y mae'n rhaid ei gyflwyno i'w gasglu yn y cadis bwyd brown, yn cael ei brosesu mewn Safle Treulio Anaerobig i wneud trydan gwyrdd a chompost.

"Rydym yn sylweddoli y bydd preswylwyr yn siomedig na allwn gasglu gwastraff gardd gwyrdd oddi ar ymyl y ffordd ar hyn o bryd, ond dyna pam y cynigion ni'r casgliadau gwastraff gardd gwyrdd untro yn ystod y penwythnosau ym mis Mai. Rydym yn gweithio ar system archebu a fydd yn ein galluogi i agor ein CAGCau cyn gynted â'i bod yn ddiogel gwneud hynny. Bydd preswylwyr yn cael y dewis o fynd â gwastraff gardd i'r canolfannau ailgylchu ar ôl i'r cynllun hwn gael ei roi ar waith."

Casgliadau Gwastraff Gardd Untro ar ddydd Sadwrn yn parhau

Dyma nodyn i'ch atgoffa y cynhelir casgliadau gwastraff gardd untro ar ddydd Sadwrn y mis hwn.

Bydd yr ardaloedd yng Nghaerdydd y mae eu gwastraff yn cael ei gasglu ar **Ddydd Iau** yn cael casgliad gwastraff gardd **ddydd Sadwrn yma, 23 Mai**.

Hoffem atgoffa preswylwyr y dylent roi gwastraff gardd allan i'w gasglu yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro yn unig.

Ni fydd unrhyw wastraff gardd ychwanegol a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, yn cael ei gasglu.

I weld cwestiynau ac atebion am y casgliadau gwastraff gardd untro yn ystod mis Mai, ewch i:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Rhieni a Mwy yn rhedeg gwasanaeth rhianta o bell yn ystod y cyfnod cloi

Mae Rhieni a Mwy yn wasanaeth rhianta a arweinir gan seicoleg i blant dan 4 oed a'u teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Ers dechrau cyfnod cloi Covid-19, mae'r gwasanaeth wedi newid ei wasanaeth rhianta ymweld â chartrefi'n gyflym er mwyn cynnig ymyriadau rhianta 1:1 pwrpasol dros y ffôn neu ar alwadau fideo.

Mae'r tîm wrthi'n gweithio gyda dros 130 o rieni plant ifanc i gefnogi perthnasoedd teuluol, ymddygiad plant a datblygu plant. Yn ogystal â hyn, mae'r tîm hefyd yn cynnig 'galwadau lles' wythnosol i deuluoedd sydd eu hangen.

Dywed rheolwr y tîm, Dr Nicola Canale, fod ei thîm wir wedi ymrwymo i gefnogi rhieni a'u plant ifanc yn ystod y cyfnod hwn, "Mae pob aelod o staff wedi bod yn bositif ac yn broffesiynol wrth addasu'n gyflym i'r newidiadau roedd angen eu gwneud er mwyn parhau i gefnogi rhieni tra'n rheoli newidiadau sylweddol yn eu cartrefi eu hunain hefyd. Rwyf wedi ein gweld gwerth craidd ar waith, sef bod yn dîm sy'n seiliedig ar gryfder, yn fwy nag erioed dros yr ychydig wythnosau diwethaf ac rwy'n teimlo'n falch o'r tîm cyfan".

Cysylltodd rhiant â'r tîm yn ddiweddar am un o Ymarferwyr Rhieni a Mwy gan ddweud, "Mae hi wedi fy helpu mewn ffyrdd na allwn eu dychmygu. Mae hi wedi bod yn drylwyr ac yn gyson ac mae wedi bod yn bleser mawr gweithio gyda hi. Mae hi wir yn deall yr hyn rwy'n mynd trwyddo ac mae wedi fy nghefnogi cymaint, ac yn parhau i wneud felly dros y ffôn yn ystod y cyfnod cloi. Gwnaeth hi gyflwyno technegau TGY (therapi gwybyddol ymddygiadol) i fi sydd wedi fy helpu i herio'r meddyliau (negyddol) hynny. Rwyf mor falch i mi ddefnyddio eich gwasanaeth a chyfarfod â hi. Mae hi'n wych ac ni alla'i ddiolch digon iddi".

I gael mwy o wybodaeth am Rhieni a Mwy ewch i wefan Dechrau'n Deg:
https://www.flyingstartcardiff.co.uk/cy/gwasanaethau/gwasanaeth-rhieni-a-mwy/